Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Ewch i Weld

## Canllawiau



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

## Hygyrchedd

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, fformat hawdd i'w ddarllen, Braille, sain ac Arwyddeg. Ymdrechwn i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais. Gweithredwn Bolisi Cyfle Cyfartal.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

## Cynnwys


Cyflwyniad .... 3
Ewch i Weld .... 4
Pwy gaiff wneud cais? .... 4
Gaf i gyrchu Ewch i Weld yn ogystal â chronfeydd eraill? .... 5
Gaf i gyflwyno mwy nag un cais i'r Gronfa Ewch i Weld? .... 5
Ar gyfer beth gallaf i wneud cais? .... 6
Beth na allaf i wneud cais amdano? .... 7
Am faint gaf i wneud cais? .... 8
Sut mae mynd ati i wneud cais? .... 10
Pryd mae'r dyddiad cau? .... 10
Beth os oes cwestiwn gen i? .... 10

# Cyflwyniad

Mae profi'r celfyddydau'n gallu ysbrydoli, herio, cysylltu a diddanu, ac mae gan brofiadau o'r fath ran bwysig i'w chwarae ym mhrofiadau dysgu ein pobl ifanc waeth ble yng Nghymru maen nhw'n byw.

Rydyn ni'n credu'n gryf y dylai ein holl blant a phobl ifanc gael y cyfle i gael eu hysbrydoli a'u cyffroi gan y gorau sydd gan y celfyddydau mynegiannol yng Nghymru i'w cynnig.  Boed hynny er mwyn 'roi cynnig' ar rywbeth newydd, datblygu eu sgiliau creadigol ac artistig, neu feithrin eu llesiant a'u hunan-barch. Mae natur ddeinamig y celfyddydau mynegiannol yn gallu denu, cymell ac annog dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau i'r eithaf.

Mae dysgu yn, trwy, ac am y celfyddydau mynegiannol, wedi eu hategu gan bartneriaethau â gweithwyr creadigol proffesiynol a sefydliadol diwylliannol, yn galluogi dysgwyr brofi ysbrydoliaeth a grym y celfyddydau.

Trwy Faes Dysgu a Phrofi'r Celfyddydau Mynegiannol, mae athrawon/ymarferwyr yn cael eu hannog i gynnig cyfleoedd sy'n cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu gallu i werthfawrogi gwaith creadigol pobl eraill, eu doniau creadigol eu hunain, a'u sgiliau artistig a pherfformio. Mae profi'r celfyddydau mynegiannol yn cofleidio dwy broses sylfaenol: sef archwilio gwaith creadigol pobl eraill, a chreu eich gwaith eich hun.

Rydyn ni'n cynorthwyo athrawon i gynnig y cyfleoedd hyn i'w dysgwyr trwy ddwy gronfa wahanol, sef:

- **Ewch i Weld** sy'n caniatáu i ysgolion fynd â dysgwyr allan i brofi gwaith creadigol pobl eraill. Gallai hyn fod ar ffurf ymweliad â theatr neu gyngerdd, ymweliad ag oriel gelf neu unrhyw brofiad arall o safon ym myd y celfyddydau. Mae'r gronfa'n helpu athrawon i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ymateb i a myfyrio ar waith pobl eraill hefyd, a gellir ei defnyddio i helpu gyda chost tocynnau a theithio.
- **Rhowch Gynnig Arni** sy'n caniatáu i athrawon fanteisio ar arbenigedd ymarferwyr creadigol o'r tu hwnt i'r ysgol. Gellir defnyddio'r gronfa i drefnu gweithdai ar gyfer eich dysgwyr ym maes y celfyddydau mynegiannol, yn yr ysgol neu'r tu hwnt, ac ar gyfer sesiynau 'untro' neu 'rhowch gynnig arni'.

Mae'r ddwy gronfa'n cynnig profiadau cyfoethog a dilys sy'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr archwilio genres, technegau, offer, deunyddiau ac arferion.

Gall ysgolion gyflwyno mwy nag un cais i'r ddwy gronfa, a hynny ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd.

I gael rhagor o fanylion am Ewch i Weld, ewch i'n gwefan.

# Ewch i Weld

Mae'r **Gronfa Ewch i Weld** yn cynnig grantiau gwerth hyd at £1,000 er mwyn caniatáu i athrawon mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru fynd â'u dysgwyr allan i weld celfyddydau o safon mewn lleoliadau ar draws Cymru. Gall athrawon ddefnyddio'r gronfa tuag at gost tocynnau a chludiant. Cynigir hyd at £1,000 i dalu hyd at 90% o gost ymweliadau ar gyfer dysgwyr 3-16 oed.

Pwrpas **Ewch i Weld** yw sicrhau bod y celfyddydau yng Nghymru'n agored i bob dysgwr. Er mwyn caniatáu i ysgolion fynd â dysgwyr allan o'r dosbarth i gael profiad o waith creadigol pobl eraill; a rhoi'r cyfle iddynt ymateb i a myfyrio ar gelfyddyd o safon uchel ledled Cymru.

Dylai ffocws pob ymweliad fod ar ***weld*** **celfyddyd o safon uchel yng Nghymru.**

"Mae'r gwerth ychwanegol yn anhygoel! Mae'r plant wedi bod yn gweithio ar eu cynhyrchiad eu hunain, ac ar ôl eu hymweliad â'r theatr, maen nhw wedi bod yn fwy ymroddgar ac yn fwy brwdfrydig am y gwaith. Mae'r perfformiad theatr a welson nhw wedi eu hysbrydoli yn eu gallu eu hunain i fod ar y llwyfan ac wedi rhoi mwy o hyder iddynt yn eu creadigrwydd. Peth arall ddysgon nhw o'r profiad yma yw bod gwneud camgymeriadau'n rhan o'r broses o ddysgu, a bod cynnydd yn dod o ddyfalbarhad."

**Athro, Ymweliad â'r theatr**

# Pwy gaiff wneud cais?

Dim ond y canlynol gaiff gyflwyno ceisiadau Ewch i Weld:

- Ysgolion a gynhelir ar gyfer dysgwyr 3-16 oed yng Nghymru.
- Unedau cyfeirio disgyblion ar gyfer dysgwyr 3-16 oed.

Mae'r Gronfa Ewch i Weld wedi ei glustnodi ar gyfer dysgwyr 3-16 oed.

Yn anffodus, ni allwn ddarparu ar gyfer ceisiadau gan ymgeiswyr o'r tu hwnt i ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion a gynhelir. Ymhlith eraill, mae hyn yn cynnwys:

- Addysg ar ôl 16 oed, gan gynnwys Colegau Addysg Bellach a Chweched Dosbarth.
- Grwpiau Addysg yn y Cartref.
- Ysgolion y goedwig.
- Ysgolion preifat neu annibynnol.
- Grwpiau addysg amgen eraill neu grwpiau sy'n gweithio gyda phobl ifanc.
- Lleoliadau'r blynyddoedd cynnar nad ydynt yn rhan o ysgolion a gynhelir.
- Sefydliadau'r Celfyddydau.

## Gaf i gyrchu Ewch i Weld yn ogystal â chronfeydd eraill?

Cewch wneud cais am gyllid Ewch i Weld:

- Yn ogystal â mentrau dysgu creadigol eraill fel y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, Cynefin: Cymru ddiwylliannol ac ethnig amrywiol, neu Rhowch Gynnig Arni.
- Ochr yn ochr â chais Rhowch Gynnig Arni i gynorthwyo eich dysgu.

Ni chewch:

- Ddefnyddio Ewch i Weld ar gyfer ymweliadau sy'n gysylltiedig â'ch ymholiad Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol neu Cynefin: Cymru ddiwylliannol ac ethnig amrywiol.
- Defnyddio cyllid Cyngor Celfyddydau Cymru neu'r Loteri Genedlaethol fel cyllid cyfatebol ar gyfer eich cais Ewch i Weld.

## Gaf i gyflwyno mwy nag un cais i'r Gronfa Ewch i Weld?

Cewch!

Cewch gyflwyno ceisiadau i'r Gronfa Ewch i Weld fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn, ond **rhaid i chi gyflwyno'ch adroddiad cwblhau** cyn ymgeisio eto.

Byddwn ni'n ystyried rhai eithriadau:

- Rydyn ni'n deall bod gwahanol athrawon yn cyflwyno ceisiadau am Ewch i Weld weithiau, felly os ydyn ni'n dal i ddisgwyl adroddiad cwblhau, byddwn ni'n dyfarnu un cais ychwanegol i chi. Ond cofiwch, ni fyddwn ni'n rhyddhau'r cyllid ar gyfer eich ymweliad newydd nes bod yr adroddiad cwblhau wedi dod i law. Caiff hyn ei ychwanegu at eich grant fel 'amod ychwanegol'. Dim ond unwaith y gallwn ni ganiatáu'r eithriad yma.
- Byddwn ni'n gwrthod unrhyw geisiadau newydd ar gyfer Ewch i Weld os ydyn ni'n aros am **fwy nag 1** adroddiad cwblhau.
- Mewn cylchoedd ariannu cystadleuol, rhoddir blaenoriaeth i ysgolion nad ydynt wedi elwa ar gyllid Dysgu Creadigol Cymru o'r blaen.

## Ar gyfer beth gallaf i wneud cais?

Nid oes gennym fonopoli ar syniadau da, ond dylai ffocws pob ymweliad fod ar ***weld* celfyddyd o safon uchel yng Nghymru**.

Gellir defnyddio Ewch i Weld i ariannu:

- Costau cludiant: Rydyn ni'n disgwyl i chi ddefnyddio'r dull mwyaf darbodus o deithio sy'n ymarferol bosibl. Gallai hynny gynnwys llogi bws, tanwydd i ddefnyddio bysys mini ysgolion, neu gludiant cyhoeddus yng Nghymru.
- Cost tocynnau: Rydyn ni'n disgwyl i chi fanteisio ar ddisgowntiau a chyfleoedd bwcio fesul bloc os yw'r rhain ar gael.
- Costau gweithdai: Dylai ffocws pob ymweliad fod ar weld celfyddyd o safon uchel. Ond, er mwyn cyfoethogi'r dysgu, gallwch gymryd rhan mewn gweithdy, sgwrs neu rywbeth cyfatebol yn rhan o'ch ymweliad. Rhaid i'r rhain ddigwydd ar y safle ar yr un diwrnod â'ch ymweliad.

Dyma ambell i esiampl o ymweliadau â ffocws ar *weld* celfyddyd o safon uchel yng Nghymru ar sail ceisiadau go iawn rydyn ni wedi eu hariannu:

- Aeth y dysgwyr i weld perfformiad cerddoriaeth fyw i brofi'r defnydd o wahanol ffurf a strwythur. Roedd y profiad yn gyfle i ddadansoddi'n feirniadol ac roedd y dysgwyr yn gallu defnyddio'r perfformiad fel ysgogiad artistig i lywio eu cyfansoddiadau eu hunain.
- Aeth y dysgwyr i weld perfformiad cerddoriaeth fyw i brofi'r defnydd o wahanol ffurf a strwythur. Roedd y profiad yn gyfle i ddadansoddi'n feirniadol ac roedd y dysgwyr yn gallu defnyddio'r perfformiad fel ysgogiad artistig i lywio eu cyfansoddiadau eu hunain.
- Ymwelodd dysgwyr â theatr i weld perfformiad a chawsant gyfle i ofyn i staff beth sy'n digwydd ar y llwyfan ac oddi arno. Roedd yr ymweliad yn gysylltiedig â'r testun, 'The Greatest Show', a dysgu am y broses o greu sioe lwyfan. Darganfu'r dysgwyr y rolau amrywiol ar y llwyfan ac oddi arno, gan roi ysbrydoliaeth i lywio eu gwaith yn ôl yn yr ystafell ddosbarth.
- Aeth dysgwyr mewn ysgol Gymraeg i weld cynhyrchiad Cymraeg o chwedl yr oeddent yn ei hastudio yn eu gwersi llythrennedd a hanes. Rhoddodd yr ymweliad gyfle i ddysgwyr brofi'r Gymraeg yn cael ei defnyddio y tu allan i amgylchedd yr ysgol. Tra bod y perfformiad yn cyflwyno pwnc newydd i'r dysgwyr mewn ffordd hwyliog, ddramatig, gan roi ysgogiad ar gyfer dysgu yn ôl yn y dosbarth.

## Beth na allaf i wneud cais amdano?

Ni allwn ddarparu cyllid ar gyfer:

- Ceisiadau lle nad oes yna gysylltiad digon cadarn â'r celfyddydau – dylai ffocws pob ymweliad fod ar weld celfyddyd o safon uchel.
- Gweithgareddau sy'n digwydd ar safle'r ysgol.
- Ymweliadau â safleoedd ysgolion eraill.
- Ymweliadau â chanolfannau neu ddigwyddiadau y tu allan i Gymru.
- Ymweliadau lle mae'r ffocws ar gyfranogaeth y dysgwyr – cyfeiriwch at ein Cronfa Rhowch Gynnig Arni.
- Mynychu a chymryd rhan mewn cystadlaethau.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n bodoli eisoes sy'n rhan o brosiect ehangach e.e. digwyddiadau dathlu neu ddigwyddiadau rhannu.
- Mynd i weld gweithgaredd sy'n rhan o brosiect cynlluniedig ehangach rydych chi eisoes yn cymryd rhan ynddo.
- Ymweliadau sydd wedi eu hamserlennu neu wedi eu hymgorffori i gynlluniau eisoes.
- Ymweliadau â dyddiad dechrau sy'n rhy fuan i ganiatáu ar gyfer ein proses grantiau. Rydyn ni'n argymell cyflwyno'r cais 5 wythnos cyn eich ymweliad. Gellir tynnu ceisiadau a gyflwynir llai na 5 wythnos gweithio cyn y dyddiad arfaethedig yn ôl neu eu gwrthod.
- Ymweliadau â dyddiad dechrau sydd yn y gorffennol neu sydd eisoes wedi digwydd.
- Ymweliadau a allai ddigwydd heb ein cyllid ni.
- Ceisiadau lle nad oes yna ddigon o fanylion i'r panel asesu cymhwyster yr ymweliad.
- Gwariant cyfalaf/prynu offer neu adnoddau.
- Aros dros nos neu luniaeth.
- Trwyddedau meddalwedd.
- Ceisiadau sy'n disgyn y tu hwnt i'n meini prawf cymhwyster.
- Am fanylion pellach gweler: Pwy gaiff wneud cais.
- Staffio, staff cyflenwi neu staff cymorth ychwanegol (gellir cynnwys hyn fel cyllid cyfatebol).

### Amgylchiadau Neilltuol

Rydyn ni'n gwybod y bydd y problemau penodol sy'n wynebu rhai ysgolion yn wahanol i'r lleill. Lle bo angen cyllid arnoch am resymau sydd y tu hwnt i gwmpas ein canllawiau arferol, fel i fynd y tu allan i Gymru neu wahodd Sefydliad Celfyddydol i mewn i ysgol, byddwn yn ystyried yn ofalus yr achos a wnewch dros gael cyllid. Lle bo hynny'n briodol, gallwn ddyfarnu eich cais dan amodau neilltuol.

# Am faint gaf i wneud cais?

Nid oes yna unrhyw gyllideb i'w pharatoi ar gyfer Ewch i Weld, ond bydd angen i chi ddweud wrthym:

- Beth fydd cyfanswm cost yr ymweliad i'r ysgol.
- Faint rydych chi'n ei geisio o'r gronfa – gall hyn fod hyd at £1,000 i dalu hyd at 90% o gost y tocynnau a'r cludiant.
- Faint y byddwch chi'n ei gyfrannu – 10% o gyllid cyfatebol.

Byddwn ni'n ariannu **hyd at 90%** o gyfanswm cost eich ymweliad hyd at uchafswm o £1,000. Os yw cyfanswm cost eich ymweliad yn fwy na £1,000, bydd angen i chi ariannu'r swm ychwanegol fel cyllid cyfatebol.

Wrth gyfrifo'ch cyllid cyfatebol, mae hi'n werth defnyddio cyfrifiannell canrannau ar lein, a chofiwch dalgrynnu i lawr i'r bunt agosaf am nad ydym ni'n talu grantiau mewn ceiniogau.

Dyma ambell i esiampl:

- Os **£1,100** yw cyfanswm cost yr ymweliad **byddwn ni'n dyfarnu 90% (£990) i chi** a byddwch chi'n clustnodi'r £110 ychwanegol fel cyllid cyfatebol yn eich cais.
- Os **£900.50** yw cyfanswm cost yr ymweliad **byddwn ni'n dyfarnu 90% (£810) i chi** gan dalgrynnu i lawr i'r bunt agosaf, a byddwch chi'n clustnodi'r £90.50 ychwanegol fel cyllid cyfatebol yn eich cais.
- Os **£1,500** yw cyfanswm cost yr ymweliad **byddwn ni'n dyfarnu 66% (£1000) i chi** fel uchafswm y grant, a byddwch chi'n clustnodi'r £500 ychwanegol fel cyllid cyfatebol yn eich cais.

Bydd y swm y byddwch yn ei geisio'n dibynnu ar y dyfynbrisiau rydych chi wedi eu cael am gostau cludiant a/neu docynnau. Gallwch wneud cais am gludiant yn unig, tocynnau yn unig neu gais am y ddau! Rydyn ni'n argymell eich bod chi'n cael dyfynbrisiau cyn gwneud cais er mwyn sicrhau eich bod chi'n cyflwyno cais cywir. Bydd hyn yn lleihau'r risg o orfod talu unrhyw grant nad oes ei angen ar gyfer eich ymweliad yn ôl.

**Ni ellir gwarantu cyllid**, felly er ein bod ni'n argymell cael dyfynbrisiau, ni ddylid ymrwymo unrhyw gyllid cyn cael cydsyniad.

### Canllawiau ar gyfer cyllid cyfatebol

Gall cyllid cyfatebol fod yn gymysgedd o arian parod neu gymorth mewn da.

Gall hyn fod yn gymorth 'mewn da' fel athrawon cyflenwi, yn arian gan rieni, neu'n gyfraniadau codi arian gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Nid oes angen i chi anfon y cyllid cyfatebol atom yn uniongyrchol, dim ond rhoi gwybod i ni yn eich cais o ble y bydd yr arian yn dod.

Noder: Ni all cyllid Ewch i Weld dalu costau staffio, staff cyflenwi na chymorth cyflenwi ychwanegol. Bydd rhaid cynnwys hyn fel cyllid cyfatebol.

## Dogfennau Ychwanegol

Ni fyddwn ni'n derbyn atodiadau na dogfennau ychwanegol a gyflwynir yn rhan o'ch cais. Bwriedir i Ewch i Weld fod yn gynllun hwylus a chyflym, a dylai fod modd i chi ddweud popeth y mae angen i ni ei wybod wrthym trwy ateb y cwestiynau ar y ffurflen gais ar-lein.

## Derbyn y Dyfarniad

Os penderfynwn ni ddyfarnu grant i chi, cewch neges gynnig gan dimymateb@celf.cymru i roi gwybod i chi eich bod wedi bod yn llwyddiannus. Bydd angen i chi dderbyn eich dyfarniad wedyn trwy fewngofnodi i'ch cyfrif ar y porth.

**Ni allwn ryddhau'r cyllid nes eich bod wedi derbyn eich dyfarniad.**

Bydd canllawiau pellach yn y neges gynnig.

## Amodau Ychwanegol y Grant

Gall eich grant fod yn amodol ar amodau ychwanegol. Wrth dderbyn eich dyfarniad, fe welwch grynodeb o unrhyw amodau a bennwyd ar gyfer eich grant. Gallwch weld y rhain ar y tab grantiau ar y porth.

**Ni allwn ryddhau'r cyllid nes eich bod wedi bodloni amodau'r grant.**

I gael rhagor o fanylion, e-bostiwch: dysgu.creadigol@celf.cymru

## Adroddiadau Cwblhau

Ar ôl cwblhau eich ymweliad, bydd angen i chi gyflwyno myfyrdod byr ar yr hyn a gyflawnwyd trwy gymryd rhan. Gallwch gynnwys delweddau a dyfyniadau gan y dysgwyr hefyd os gallwch roi caniatâd i ni eu defnyddio.

Ar ôl cwblhau eich adroddiad cwblhau, byddwn ni'n cau'r grant yna, a gallwch gyflwyno cais arall.

Dyma linc i lenwi'r adroddiad cwblhau.

## Cysylltu â ni pan fo amgylchiadau'n newid

Rydyn ni'n gwybod bod amgylchiadau'n gallu newid weithiau. Efallai y bydd angen canslo eich ymweliad, newid y dyddiad, newid nifer y dysgwyr, neu na fydd angen y grant llawn y gwnaethoch gais amdano mwyach. Waeth beth fo'r amgylchiadau, os oes angen newid manylion eich ymweliad am unrhyw reswm, cysylltwch â dysgu.creadigol@celf.cymru gan nodi cyfeirnod eich grant a/neu enw'r ysgol i roi gwybod i ni.

## Sut mae mynd ati i wneud cais?

I gyrchu'r ffurflen gais, bydd angen i chi fod wedi cofrestru ar y porth ar lein.

Rydyn ni'n argymell eich bod chi'n cofrestru o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad pan rydych chi'n dymuno dechrau'r cais. Ar ôl derbyn eich manylion mewngofnodi, gallwch ddefnyddio'r rhain i gyrchu holl ffurflenni cais Dysgu Creadigol Cymru, ac ni fydd angen ailgofrestru pan fyddwch am ymgeisio eto.

Os oes angen cymorth pellach arnoch i gyrchu'r porth ar lein, cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth:

- grantiau@celf.cymru
- **029 2044 1300** neu **03301 242733** (y llinell gymorth) codir pris galwad lleol arnoch.

## Pryd mae'r dyddiad cau?

Gallwch wneud cais am gyllid unrhyw bryd. Yn y mwyafrif o achosion, byddwch chi'n clywed gennym cyn pen 4 wythnos gwaith, dim ots a yw'r cais wedi bod yn llwyddiannus ai peidio. Rydyn ni'n argymell eich bod chi'n cyflwyno'ch cais o leiaf 5 wythnos gwaith cyn y dyddiad dechrau er mwyn caniatáu amser ar gyfer y broses o asesu'r grant. Gellir tynnu ceisiadau a gyflwynir llai na 5 wythnos gweithio cyn dyddiad yr ymweliad arfaethedig yn ôl neu eu gwrthod.

Cofiwch, dim ond un cais agored am Ewch i Weld a ganiateir i bob ysgol. Rydyn ni'n annog ymgeiswyr felly i ystyried a fydd ceisiadau a gyflwynir 12 wythnos neu ragor cyn yr ymweliad yn atal athrawon a dysgwyr eraill yn yr ysgol rhag cyrchu'r gronfa.

## Beth os oes cwestiwn gen i?

Os oes unrhyw gwestiynau gennych am Ewch i Weld, croeso i chi gysylltu â ni.

E-bostiwch ni yn: dysgu.creadigol@celf.cymru

Fe wnawn ein gorau i ymateb i bob ymholiad cyn gynted ag y gallwn ni. Os ydych chi am gael galwad nôl, nodwch eich rhif cyswllt, a byddwn ni'n gwneud trefniadau i gysylltu nôl â chi cyn gynted â phosibl.